

ADNODAU AGORIADOL A DARLLENIAU

Yn y dechreuad creodd Duw y nefoedd a'r ddaear.....Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn. **Genesis 1: 1, 31**

Eiddo'r Arglwydd yw'r ddaear a'i llawnder, y byd a'r rhai sy'n byw ynddo. **Salm 24: 1**

Y sawl sy'n cyflwyno offrymau diolch sy'n fy anrhydeddu, ac i'r sawl sy'n dilyn fy ffordd y dangosaf iachawdwriaeth Duw. **Salm 50: 23**

Rhof ddiolch i ti, O Arglwydd, ymysg y bobloedd **Salm 57: 9**

Moliannaf enw Duw ar gân, mawrygaf ef â diolchgarwch. **Salm 69: 30**

Diolchwn i ti, O Dduw, diolchwn i ti; y mae dy enw yn agos wrth adrodd am dy ryfeddodau. **Salm 57: 1**

Dewch i mewn i'w byrth â diolch, ac i'w gynteddau â mawl. **Salm 100: 4**

Diolchwn i'r ARGLWYDD, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth. **Salm 107: 1**

Rhof ddiolch i ti, O ARGLWYDD, ymysg y bobloedd, a chanmolaf di ymysg y cenedloedd. **Salm 108: 3**

Ti yw fy Nuw, a rhoddaf ddiolch i ti; fy Nuw, fe'th ddyrchafaf di. **Salm 118: 28**

Canwch i'r ARGLWYDD mewn diolch, canwch fawl i'n Duw â'r delyn.

Salm 147: 7

Oni wyddost, oni chlywaist? Duw tragwyddol yw'r Arglwydd a greodd gyrrau'r ddaear; ni ddiffygia ac ni flina, ac y mae ei ddeall yn anchwiliadwy.

Eseia 40: 28

Ond aberthaf i ti â chân o ddiolch. Talaf yr hyn a addunedais; i'r ARGLWYDD y perthyn gwaredu.

Jona 2: 9

Diolchwn bob amser am bob dim i Dduw y Tad yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.

Effesiaid 5: 20

Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, ar air neu ar weithred, gwnewch bopeth yn enw yr Arglwydd Iesu, gan roi diolch i Dduw, y Tad, drwyddo ef.

Colosiaid 3: 17

Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi.

1 Thesaloniaid 5: 18

Oherwydd y mae popeth a greodd Duw yn dda, ac ni ddylid gwrthod dim yr ydym yn ei dderbyn â diolch iddo ef.

1 Timotheus 4: 4

Felly, gan ein bod yn derbyn teyrnas ddi-sigl, gadewch inni fod yn ddiolchgar, a thrwy hynny wasanaethu Duw wrth ei fodd, â pharch ac ofn duwiol.

Hebreaid 12: 28

Byddwch yn amyneddgar, gyfeillion, hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Gwelwch fel y mae'r ffermwr yn aros am gynnyrch gwerthfawr y ddaear, yn fawr ei amynedd amdano nes i'r ddaear dderbyn y glaw cynnar a diweddar. Byddwch chwithau hefyd yn amyneddgar, a'ch cadw eich hunain yn gadarn, oherwydd y mae dyfodiad yr Arglwydd wedi dod yn agos.

Iago 5: 7-8

A chlywais bob peth a grëwyd, yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear ac ar y môr, a'r cwbl sydd ynddynt, yn dweud:

'I'r hwn sy'n eistedd ar yr orsedd ac i'r Oen y bo'r mawl a'r anrhydedd a'r gogoniant a'r nerth byth bythoedd!'

Datguddiad 5: 13

DARLLENIADAU AR THEMA DIOLCHGARWCH

Yr Hen Destament:

Genesis 8: 15-22

Lefiticus 19: 9-18

Deuteronomium 26: 1-11

Deuteronomium 28: 1-14

Ruth 2: 1-17

Salm: 65

Salm: 100

Salm: 103

Salm: 147

Salm: 148

Eseia: 55

Y Testament Newydd:

Mathew 6: 25-34

Mathew 13: 24-35

Marc 4: 1-9, 13-20

Luc 12: 16-31

Ioan 6: 1-14

Ioan12: 23-28

Rhufeiniaid 8: 18-25

2 Corinthiaid 9: 6-15

Philipiaid 4: 10-20

Colosiaid 1: 11-17